

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD:	9 Mawrth 2023
LLEOLIAD:	O bell drwy gyfrwng fideo-gynadledda
TEITL:	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth
ER:	Penderfyniad

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth a'r cynnydd a wnaed ynghylch y cynigion a'r argymhellion.

Mae dwy ran i'r Adroddiad hwn:

- a) *Arolwg tracio'r Cyngor o gynigion y Rheoleiddiwr/ Arolygiaeth ar gyfer gwella ac argymhellion; a*
- b) *Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor*

Y Sefyllfa Bresennol

a) Arolwg tracio'r Cyngor o gynigion y Rheoleiddiwr/ Arolygiaeth ar gyfer gwella ac argymhellion

- Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor 2022-23:
 - Ffurflen Ymateb – Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21 (**Atodiad 1**)
 - Ffurflen Ymateb – Diweddariad ar Gynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihau Carbon (**Atodiad 2**)
 - Ffurflen Ymateb – Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio? (**Atodiad 3**)
 - Archwilio Cymru - 'Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru - ffurflen ymateb rheolwyr i ddilyn
 - Archwilio Cymru - 'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol – ffurflen ymateb i ddilyn

b) Materion eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor

ARGYMHELLIAD: Ystyried ymatebion y Cyngor i Adroddiadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth

Rheswm dros yr Argymhelliad: Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiadau, cynigion a'r gwaith sydd ar y gweill

Atodiadau:

- Atodiad 1** Ffurflen Ymateb – Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21
- Atodiad 2** Ffurflen Ymateb – Diweddariad ar Gynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihhau Carbon
- Atodiad 3** Ffurflen Ymateb – Aseidiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?

Enw Cyswllt: Elin Prysor

Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, a Swyddog Monitro

Dyddiad: 09/03/2023

Adroddiad Cenedlaethol Cryno Archwilio Cymru ac Argymhellion ar gyfer Gwella

Awdurdod Rheoleiddio: Archwilio Cymru

Teitl yr Adroddiad: Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: 20 Hydref 2022

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: 17 Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Y_Fenter_Twyll_Genedlaethol_yng_Nghymru_2020_21_welsh_0.pdf

Crynodeb o'r Adroddiad

Mae Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru yn crynhoi canlyniadau Ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21.

Argymhellion

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
A1	Dylai'r holl gyfranogwyr yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol sicrhau eu bod yn cynyddu manteision eu cyfranogiad i'r eithaf. Dylent ystyried a yw'n bosibl gweithio'n fwy effeithlon ar bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol trwy adolygu'r adran gyfarwyddyd o fewn cymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.	Cydlynir ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol gan y Rheolwr Archwilio. Mae'r holl adroddiadau'n cael eu rhedeg ar y cyd â TG ac anfonir y canlyniadau i'r gwasanaethau priodol i'w prosesu. Bydd y parïadau yn cael eu nodi yn ôl lefel risg a chynhelir profion sampl yn seiliedig ar flaenoriaeth y risg. Anogir yr holl gyfranogwyr i ddarllen y canllawiau ac ymgymryd â'r hyfforddiant o fewn cymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol cyn pob ymarfer.
A2	Dylai pwyllgorau archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu <u>rhestr wirio hunan-arfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol</u> . Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2022-23.	Cyflwynwyd adroddiad ar restr wirio hunan-arfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2022. Adroddir hefyd ar ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn Adroddiad Atal Twyll blynyddol y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
A3	Lle mae archwilwyr lleol yn argymell gwella amseroldeb a thrylwyredd y broses o adolygu parïadau'r Fenter Twyll Genedlaethol dylai cyfranogwyr yn y Fenter Twyll Genedlaethol gymryd camau gweithredu priodol.	Gweler A1 uchod - cydlynir ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol gan y Rheolwr Archwilio. Mae'r holl adroddiadau'n cael eu rhedeg ar y cyd â TG ac anfonir y canlyniadau i'r gwasanaethau priodol i'w prosesu. Mae'n ofynnol cwblhau pob parïad a argymhellir erbyn diwedd mis Mai; pob parïad i'w

Cyf	Cynnig ar gyfer Gwella / Argymhelliad	Ymateb y Cyngor
		cwblhau erbyn diwedd mis Medi. Mae pob gwasanaeth yn penderfynu ar y fethodoleg briodol ar gyfer datblygu eu pariadau unigol.

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl y Ddogfen: Diweddariad Cynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihau Carbon

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	Er mwyn bodloni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.	<p>Mae gan y Cyngor hanes da o leihau gollyngiadau carbon, gyda threfniadau sefydledig i gyflawni ei uchelgeisiau Sero Net. Fodd bynnag, cydnabyddir y gellir gwneud gwelliannau drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adolygu a datblygu costau clir ar gyfer cyflawni gwahanol elfennau o'r Cynllun Gweithredu. Ystyried y rhain wrth i raglen gyfalaf 10 mlynedd gael ei darparu. 	Y bwriad yw datblygu costau dros dro erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Fodd bynnag, bydd rhai agweddau ar waith yn cymryd mwy o amser, wrth i ganllawiau newydd gael eu cyhoeddi, neu dechnolegau newydd gael eu datblygu.	<ul style="list-style-type: none"> Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio Rhodri Llwyd, Swyddog

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu adnoddau staff i helpu i gydlynu a chyflawni'r Cynllun. <p>Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad manylach o opsiynau a chostau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio cyfleoedd pellach i leihau allyriadau ar draws portffolio eiddo gweithredol y Cyngor • Arbedion effeithlonrwydd pellach o fewn fflyd y Cyngor • Cynlluniau adnewyddadwy ar raddfa fawr sy'n eiddo i'r cyngor neu'r gymuned • Adolygu polisïau caffael • Datblygu systemau data a monitro • Datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol • Gwella capasiti staff a chymorth i helpu i gyflawni cynlluniau 		<p>Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Grŵp Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd</i>

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	<p>Egluro cwmpas y ddyletswydd i asesu effaith polisiâu ac arferion</p> <p>Mae lle i ddrysu ynghylch pa fath o bolisiâu ac arferion y mae'n rhaid iddynt fod yn destun asesiad o'u heffaith ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei</p>	<p>Nid yw'n berthnasol gan fod yr argymhelliad yma ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.</p>		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	dehongliad o'r ddyletswydd, gan gynnwys a yw'n disgwyl i gyrff cyhoeddus ddefnyddio unrhyw brawf o gymesuredd a pherthnasedd a sut i wneud hynny.			
A2	<p>Creu darlun o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da</p> <p>Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau effaith integredig sy'n cynnwys ystyried y DCSC ochr yn ochr â dyletswyddau eraill. Ond mae'r arfer yn anghyson ac yn aml yn cynnwys coladu nifer o asesiadau mewn un lle, yn hytrach na'u bod wir wedi'u hintegreiddio, i helpu i sicrhau cymaint o'r manteision a fwriadwyd â phosibl yn sgil asesiadau effaith integredig, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant yn y meysydd a gwmpesir yn gyffredin gan asesiadau effaith integredig a'r rhai sydd â phrofiadau byw, i rannu yr hyn a ddysgwyd a gweithio tuag</p>	Nid yw'n berthnasol gan fod yr argymhelliad yma ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	at ddealltwriaeth gyffredin o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da.			
A3	<p>Cymhwyso'r dyletswyddau cydraddoldeb i gydweithrediadau cyrff cyhoeddus a phartneriaethau</p> <p>Mae tirwedd y sector cyhoeddus wedi newid ers cyflwyno'r DCSC a dyletswyddau penodol i Gymru, ac mae pwyslais cynyddol ar gynllunio a chyflawni cydweithredol. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes angen diweddarau rheoliadau penodol i Gymru i gwmpasu ystod ehangach o drefniadau cydweithredol a phartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus, byrddau partneriaethau rhanbarthol a phartneriaethau eraill sy'n benodol i wasanaethau.</p>	Nid yw'n berthnasol gan fod yr argymhelliad yma ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A4	<p>Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</p> <p>Er bod enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â chamau penodol o broses Asesu'r effaith ar Gydraddoldeb, mae gan bob corff cyhoeddus wersi i'w dysgu am eu dull cyffredinol. Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i'n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau DCSC penodol i Gymru fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law.</p>	<p>Mae ein templed presennol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u strwythuro o amgylch y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r rhan ar gydraddoldeb yn cael ei llenwi fel rhan o'r nod o greu 'Cymru sy'n fwy cyfartal'.</p> <p>Rydym wrthi'n adolygu ein dulliau a'n canllawiau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn bwriadu parhau â'r strwythur yma at y dyfodol.</p> <p>Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau o adroddiad Archwilio Cymru ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'u canllawiau a hynny er mwyn bwydo i'r broses.</p> <p>Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymuno â rhwydwaith y Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac mae'n bwrw golwg yn rheolaidd ar yr Hwb Arferion i sicrhau bod ein ffordd o weithio yn parhau i wella.</p>		

